

## **COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 11eg o FAI 2015 YN NEUADD LESIANT PONTIETS AM 7.00**

**Presennol:** Aled Williams (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Alan Lewis, Linda Williams, Geraint Rosser, Meic Bowen, Geoff Hewitt, Ellis Jenkins, a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Carrie Rees, Wendy Evans a Richard Thomas

### **Materion Personol**

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd. Estynnwyd croeso arbennig i Ellis Jenkins ar ôl ei dostrwydd

#### **1148 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf ar 12/05/14 fel rhai cywir.

#### **1149 CADEIRYDD 2015-2016**

Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Geraint Rosser yn Gadeirydd

#### **1150 IS-GADEIRYDD 2015-2016**

Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Alan Lewis yn Is-gadeirydd

#### **1151 LWFANS Y CADEIRYDD**

Penderfynwyd bod y Cadeirydd i dderbyn Lwfans o £300 tuag at dreuliau'r swydd.

#### **1152 Diolchiadau**

Cyfeiriodd y Cadeirydd presennol y Cynghorydd Aled Williams ei fod wedi cael blwyddyn brysur a diolchodd i'r Is-gadeirydd a'r Cyngor yn gyffredinol am eu cydweithrediad parod. Diolchodd hefyd i'r Clerc, Glyndwr Prideaux, am ei wasanaeth trylwyr yn ystod y flwyddyn.

Diolchwyd iddo ef fel Cadeirydd am ei arweiniad ac am lywio'r Cyfarfodydd mor drefnus yn ystod flwyddyn ei lywyddiaeth.

#### **1153 Ethol Aelodau'r Is-bwyllgorau**

##### **Cyllid:**

Cadeirydd y Cyng. Geraint Rosser, Cyng. Richard Thomas, Cyng. Ellis Jenkins, Cyng. Linda Williams, Cyng. Ian Evans, Cyng. Tyssul Evans

##### **Cynllunio:**

Cadeirydd y Cyng. Geraint Rosser, Cyng. Ian Evans, Cyng. Ellis Jenkins, Cyng. Heddwyn Jones, Cyng. Geoff Hewitt, Cyng. Alan Lewis +1.

##### **Iaith:**

Cadeirydd y Cyng. Geraint Rosser, Cyng. Heddwyn Jones, Cyng. Linda Williams, Cyng. Carrie Rees, Cyng. Wendy Evans +1

##### **Goleuadau:**

Cadeirydd y Cyng. Geraint Rosser, Cyng. Carrie Rees, Cyng. Meic Bowen, Cyng. Aled Williams, Cyng. Alan Lewis

##### **Pwyllgor Cyswllt Cwar Torcoed:**

Cyng. Richard Thomas, Cyng. Tyssul Evans, Cyng. Alan Lewis

##### **Pwyllgor y Wefan:**

Cyng.Linda Williams,Cyng.Alan Lewis

**Pwyllgor y Frigâd Dan (Pontiets)**

Cyng. Carrie Rees,Cyng,Wendy Evans,Cyng.Alan Lewis,Cyng.Ian Evans

**1154 Trosglwyddwyd y gadair i'r Cadeirydd newydd**

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 19.25y.n.

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

**Dyddiad.....**